**LGH-12-00 (min)**

# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

**Dyddiad:** Dydd Mercher 15 Tachwedd 2000

**Amser:** 9.30am tan 11.50am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 2, Adeilad y Cynulliad

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gyr |
| Peter Black (Dirprwy Weinidog) | Gorllewin De Cymru |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Y Grp Llywodraeth Leol |
| John Bader | Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitemau 4 a 5) |
| Norma Barry | Yr Is-adran Perfformiad a Chyllid Tai (eitem 4) |
| Stephen Phipps | Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitem 4) |
| Alan Thornton | Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol (eitem 5) |
| Kate Cassidy | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitemau 5 a 6) |
| Richard Shearer | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitem 6) |
| Roger Bonehill | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

*Ysgrifenyddiaeth:*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc |
| Phil Mulraney | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb nac eilyddion.

1.2 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Peter Law wrth iddo ddychwelyd i’r Pwyllgor, yn ogystal ag i William Graham a Tom Middlehurst fel Aelodau newydd. Mynegodd ei diolch i David Davies, Janice Gregory ac Alison Halford am eu cyfraniad i waith y Pwyllgor.

**Eitem 2: Datganiad o fudd**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;

- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog: LGH-12-00 (p.1)**

3.1 Cyn gwahodd y Gweinidog i gyflwyno ei hadroddiad, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n delio â materion yn deillio o'r llifogydd diweddar ar ddiwedd yr eitem.

3.2 Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu cwrdd â'r awdurdodau heddlu yng Nghymru yn rheolaidd i drafod materion polisi a chyllid. Ymrwymodd i ddod â phapur i'r Pwyllgor ar y trefniadau cyllido ar gyfer awdurdodau heddlu. Awgrymodd un Aelod y dylai'r cyllid ar gyfer awdurdodau heddlu gael ei ddangos ar dudalen ar wahân ar filiau treth gyngor.

3.3 Mewn ymateb i awgrym o'r Gadair, ymrwymodd y Gweinidog i godi cwestiwn gyda'r awdurdodau heddlu mewn cyfarfod yn y dyfodol pa un y byddai yna fanteision o gael mwy o gysondeb yn y Memoranda Dealltwriaeth sy'n bodoli rhwng pob awdurdod heddlu a'r gwasanaethau prawf, awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd mewn perthynas â throseddwyr rhyw.

3.4 Ar lwfansau cynghorwyr, dywedwyd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynnig y dylid cael astudiaeth gan ymgynghorwyr annibynnol, i'w chyllido gan y Cynulliad Cenedlaethol. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn cefnogi'r cynnig hwn a'i bod wedi penderfynu sefyll i lawr o'r gweithgor lwfansau aelodau tra bo'r astudiaeth ar y gweill.

3.5 Yn gyffredinol cefnogai'r Aelodau astudiaeth annibynnol fel y ffordd orau o symud ymlaen ar fater lwfansau cynghorwyr. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ymgynghori â grp pob plaid ar y cylch gwaith ar gyfer yr astudiaeth, ac y byddai hefyd yn sicrhau bod yr amserlen ar gyfer yr astudiaeth ar gael i'r Pwyllgor. Nodwyd y gallai fod yn ofynnol ailgynnull y gweithgor unwaith y byddai'r astudiaeth wedi ei chwblhau.

3.6 Rhoddwyd gwybod bod Pwyllgor Llywodraeth Leol Senedd yr Alban wedi ymgymryd â chyfres o ymweliadau ag awdurdodau lleol, ac awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor ymgymryd â rhaglen gyffelyb yng Nghymru. Cytunodd y Gweinidog a'r Cadeirydd i geisio barn y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ar yr awgrym hwn.

3.7 Nododd y Pwyllgor fod y Gweinidog wedi cyhoeddi dyraniad o dros £6 miliwn i awdurdodau lleol o'r Gronfa Adfywio Leol fel nawdd cyfatebol ar gyfer ceisiadau Amcan 1 llwyddiannus, a bod 40 o geisiadau pellach yn cael eu hystyried. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n sicrhau bod gwybodaeth am geisiadau llwyddiannus o dan y Gronfa Adfywio Leol yn cael ei darparu i Aelodau'r Pwyllgor.

3.8 Ar y llifogydd diweddar yng Nghymru, talodd y Cadeirydd a'r Gweinidog deyrnged i staff awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys ac eraill a fu'n gweithio'n ddi-baid yn ystod yr amodau difrifol i atal problemau pellach. Dywedodd y Gweinidog iddi gyhoeddi y byddai'r cynllun Bellwin

yn cael ei roi ar waith, er mwyn darparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol i'w helpu gyda chost ychwanegol gwaith i ddiogelu bywyd neu eiddo neu i atal Dioddefaint neu anghyfleustra difrifol. Câi gwariant cymwys uwchlaw trothwyon Bellwin (a bennwyd ar 0.2 y cant o gyllidebau refeniw) ei gefnogi ar gyfradd 100 y cant. Yr oedd nodyn technegol ar y cynllun yn cael ei baratoi ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

3.9 Yr oedd yr Aelodau'n cefnogi rhoi cynllun Bellwin ar waith, ac awgrymwyd y dylid ymdrin â cheisiadau o dan y cynllun mewn modd hyblyg. Teimlent y byddai angen cymorth sylweddol ar awdurdodau lleol hefyd gyda gwariant cyfalaf, er mwyn adfer seilwaith a oedd wedi'i ddifrodi a hefyd i ymgorffori gwelliannau er mwyn lleihau'r risg o ddifrod llifogydd yn y dyfodol. Yn ogystal, yr oedd angen buddsoddiad ychwanegol mewn amddiffynfeydd atal llifogydd. Sicrhaodd y Gweinidog y Pwyllgor fod hwn yn fater y rhoddai'r Cabinet flaenoriaeth iddo, a dywedodd ei bod yn bwriadu cynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar effaith y llifogydd.

3.10 Teimlai'r Aelodau hefyd nad oedd y cyhoedd yn deall y strwythurau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gwaith o weithredu amddiffynfeydd atal llifogydd. Nodwyd bod hyn yn fater a gâi sylw yn adolygiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd o ba mor effeithiol y mae cyrff atal llifogydd yn gweithio.

**Eitem 4: Strategaeth Dai Genedlaethol – Papur ymgynghorol drafft: LGH-12-00 (p.2)**

4.1 Dywedodd y Gweinidog fod y papur ymgynghorol drafft yn nodi cynigion ar gyfer strategaeth dai ddrafft. Talodd deyrnged i Peter Law am y gwaith a ymgymerwyd ganddo yn datblygu'r strategaeth, a diolchodd i bawb a oedd wedi cyfrannu at y broses, yn enwedig Grwpiau Gwaith y Strategaeth Dai.

4.2 Croesawai'r Aelodau y ddogfen ymgynghorol. Teimlid bod y gwaith o ddatblygu'r strategaeth dai genedlaethol, y cyfrannwyd ato gan gynrychiolwyr tenantiaid, asiantaethau tai a gweithwyr proffesiynol yn y maes, llywodraeth leol ac eraill, yn cynrychioli enghraifft neilltuol o ffordd newydd a chynhwysol o ddatblygu polisi, gan weithio drwy gonsensws.

4.3 O ran cynigion polisi penodol, rhoddai'r Pwyllgor groeso arbennig i'r Comisiwn Digartrefedd a gâi ei gynnig; y cyllid ychwanegol ar gyfer y Grant Refeniw i Dai â Chefnogaeth i hwyluso ehangu'r categorïau blaenoriaeth o bobl ddigartref y mae angen llety arnynt; y mesurau i wella cyfranogiad tenantiaid; ehangu darpariaeth y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref; ehangu darpariaeth y gwasanaethau Gofal a Thrwsio i Gymru gyfan; a datblygu strategaeth dai ar gyfer grwpiau Du, Lleiafrifol Ethnig.

4.4 Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Comisiwn Digartrefedd yn gweithredu ar sail 'gorchwyl a gorffen', gan roi cyngor ar gyflwyno polisïau yngln â digartrefedd a chysgu ar y stryd. Byddai disgwyl i'r Comisiwn gwblhau ei dasgau erbyn dechrau haf 2001. Câi ei gadeirio gan Peter

Black, a byddai'r aelodau yn cynnwys Cadeiryddion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr oedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei drin fel rhan annatod o'r strategaeth dai genedlaethol.

4.5 Codwyd y pwyntiau manwl canlynol ar y papur ymgynghorol yn ystod y drafodaeth:

- Nodwyd mai bwriad yr adran ar yr iaith Gymraeg (tudalen 29) oedd amlygu pwysigrwydd yr iaith wrth ddatblygu strategaethau tai effeithiol mewn llawer rhan o Gymru wledig.
- Awgrymwyd bod yna le i roi mwy o bwyslais yn yr adran ar iechyd (tudalen 30) i rôl tai da o ran mynd i'r afael ag iechyd gwael.
- Yr oedd peth pryder bod y papur drafft (tudalen 33) wedi cymryd y safbwynt na fyddai ymgymryd ag asesiad cynhwysfawr o'r angen am dai ar lefel genedlaethol yn gost-effeithiol. Awgrymwyd y byddai ymdriniaeth fwy positif yn fwy priodol.
- Yr oedd pryder hefyd yngln â'r cynigion adnewyddu seiliedig ar ardaloedd strategol (tudalen 37). Teimlid bod yr offeryn hwnnw braidd yn ddi-awch yn nhermau adfywio cymunedol. Nodwyd bod llawer o ardaloedd sydd â thai gwael eisoes yn derbyn buddsoddiad sylweddol.
- Cefnogai'r Aelodau y cynigion i gyflwyno trefniadau trwyddedu gorfodol ar gyfer Tai Amlbreswyliaeth y bernir bod risg uchel yn perthyn iddynt (tudalen 42). Awgrymwyd y dylid rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i gyflwyno'r ddeddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol fel mater o frys ac i roi'r disgresiwn mwyaf posibl i'r Cynulliad Cenedlaethol drwy'r ddeddfwriaeth eilaidd gysylltiol. Yr oedd peth pryder yngln ag ymarferoldeb gwahaniaethu rhwng Tai Amlbreswyliaeth sydd â risg uchel ac isel.
- Nodwyd y byddai'r papur ymgynghorol yn ceisio barn ar ba un y dylai ad-daliadau rhent gael eu tynnu allan o'r Cyfrif Refeniw Tai (tudalen 45). Yr oedd pryder hefyd yngln ag effaith newid o'r fath ar awdurdodau lleol unigol, o gofio y byddai rhai ar eu colled yn ogystal â rhai ar eu hennilll.
- Nododd y Pwyllgor fod y papur ymgynghorol yn cynnwys cynnig i gymharu'r gwahaniaethau rhwng lefelau rhent awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ac i geisio rhoi sylw i wahaniaethau na ellir eu cyfiawnhau (tudalen 52). Cytunodd y Gweinidog i ddod â phapur ymlaen ar gydgyfeirio rhenti tai cymdeithasol, ynghyd â'r dolenni cyswllt â'r Grant Tai Cymdeithasol yn ogystal â'r berthynas â Budd-dâl Tai.
- Cefnogai'r Aelodau y cynnig i bwyso ar lywodraeth y DU i godi'r un cyfraddau Treth Ar Werth ar waith atgyweirio, cynnal a chadw ac adnewyddu tai ag ar adeiladau newydd (tudalen 60). Nodwyd bod Canghellor y Trysorlys wedi cyflwyno cyfradd TAW is ar gyfer rhai categorïau o waith atgyweirio yn ddiweddar.
- Awgrymwyd y dylai fod cyfeiriad at y Ddeddf Safonau Gofal yn y deunydd ar y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir (tudalen 65).
- Croesawai'r Pwyllgor y cynnig am adolygiad sylfaenol i symleiddio gweinyddiaeth Budd-dâl Tai (tudalen 73). Teimlid bod y system bresennol yn gwrthannog landlordiaid yn y sector preifat rhag derbyn tenantiaid ar Fudd-dâl Tai.
- Cefnogai'r Pwyllgor hefyd y cynnig yn y papur ymgynghorol (tudalen 73) i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU o blaid sefydlu'r un hawl i Fudd-dâl Tai i rai dan 25 oed ag i'r

rheini sydd dros 25 oed.

- Cefnogai'r Aelodau y cynnig i hyrwyddo 'Diogelwch Drwy Gynllunio', cynllun yr Heddlu i atal troseddu drwy gyfrwng cynllun tai, fel yr ymarfer gorau ym mhob datblygiad tai newydd (tudalen 76). Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn cefndirol i'r Aelodau ar y cynllun 'Diogelwch Drwy Gynllunio'.

4.6 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys y ddogfen ymgynghorol yn ei blaen. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n darparu nodyn cefndirol ar y pwyntiau technegol a godwyd gan Aelodau. Nodwyd bod dadl ar y papur ymgynghorol wedi'i threfnu ar gyfer y cyfarfod llawn ar 28 Tachwedd.

**Eitem 5: Cyllidebau – Ystyried y gyllideb ddrafft: LGH-12-00 (p.3)**

5.1 Dywedodd y Gweinidog fod y gyllideb ddrafft, a drafodwyd yn y cyfarfod llawn ar 26 Hydref, wedi cymryd y blaenoriaethau a nodwyd gan y Pwyllgor ar ddechrau'r cylch cynllunio i ystyriaeth. Gwahoddodd sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ogystal ag ar y newidiadau arfaethedig i *gwellcymru.com*, cynllun strategol y Cynulliad Cenedlaethol.

5.2 Mewn ymateb i nifer o geisiadau gan Aelodau, ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu dadansoddiad manwl o'r adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol o bob rhan o gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol. Cytunodd hefyd i ddarparu braslun o'r mecanweithiau dosbarthu ar gyfer grantiau penodol.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cadarnhaodd y Pwyllgor y gyllideb ddrafft a'r camau a gymerwyd gan y Gweinidog i gwrdd â blaenoriaethau'r Pwyllgor. Yn arbennig, croesawai'r Aelodau y cynnydd sylweddol yn y grant cynnal refeniw i awdurdodau lleol, ynghyd â'r cyllid trosiannol a oedd yn cael ei ryddhau er mwyn esmwytháu'r newid i fformiwla newydd yr Asesiad Gwario Safonol.
- Croesawai'r Aelodau hefyd benderfyniad y Gweinidog i symud oddi wrth bridiannu cyllid awdurdodau lleol, a oedd fe deimlid yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i wario eu hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol. Yr oedd y Pwyllgor yn gefnogol iawn i ddatblygu cytundebau polisi gydag awdurdodau lleol a ganolbwyntiai ar ganlyniadau polisi, gan gynnwys cyflwyno'r Grant Cymell Perfformiad.
- Yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i'r Gweinidog ailystyried lefel yr adnoddau cyfalaf a fydd ar gael i awdurdodau lleol dros gyfnod y gyllideb yn wyneb y llifogydd diweddar.
- Yr oedd yr Aelodau'n bryderus pa un y byddai gan awdurdodau lleol adnoddau digonol ar gael i'w defnyddio fel nawdd cyfatebol ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r gyllideb ddrafft yn ei thyb hi yn darparu cyllid digonol i'r awdurdodau i'r perwyl hwn.
- Croesawai'r Pwyllgor y cynnydd cyffredinol yn y cyllidebau tai, a oedd yn gwrth-droi'r duedd ddiweddar i ostwng lefel y gwariant. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylid rhoi mwy

fyth o flaenoriaeth i dai, o gofio'r cysylltiadau cryf rhwng gwell tai a gwell iechyd.
- Nododd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'r targedau ar gyfer 2003 yn *gwellcymru.com,* gan gynnwys ehangu'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref. Nododd hefyd y gallai fod gofyn edrych eto ar y targedau unwaith y bydd cynnwys 'Mesur Llywodraeth Leol' arfaethedig y Cynulliad wedi ei benderfynu.

5.4 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog i nodi barn y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft a'r newidiadau arfaethedig i *gwellcymru.com*.

**Eitem 6: Gwerth gorau – Adolygu'r dangosyddion perfformiad a chanlyniadau'r cynllluniau archwilio perfformiad: LGH-12-00 (p.4)**

6.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd y Gweinidog fod yna ymrwymiad i adolygu'r Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau a sefydlwyd ar gyfer 2000-01. Yr oedd yna ormod o ddangosyddion, heb ffocws digonol ar y cynnyrch. Cynigiai'r papur ymgynghorol ostyngiad o 172 i 96 o ddangosyddion perfformiad, ac yr oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi awgrymu y dylid rhoi'r gorau i 20 arall o'r dangosyddion perfformiad. Yr oedd y Gymdeithas hefyd wedi cynnig y dylai fod un dyddiad cyhoeddi, sef 30 Mehefin, i Gynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau.

6.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig fod yr ystod o Ddangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau yn gryf, yn wrthrychol ac yn ystyrlon. Cefnogent y gostyngiad arfaethedig yn nifer y dangosyddion, gan gynnwys y rheini a awgrymwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Yr oedd pryder yngln â dileu rhai dangosyddion, er enghraifft, BVPI 1 ar fabwysiadu Cynllun Agenda Leol 21, AC-C1 yn ymwneud â nifer yr aelwydydd digartref mewn llety dros dro a BVPI 81 ar gwblhau adolygiad ac asesiad ansawdd aer. Teimlid bod yna le i ddatblygu dangosyddion mwy ystyrlon yn y meysydd hyn.
- Cefnogai'r Aelodau farn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylid cael un Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau i'w gynhyrchu erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn. Nodwyd i'r trefniant eleni, gyda Chynllun drafft yn cael ei gynhyrchu erbyn 31 Mawrth a chynllun terfynol erbyn 30 Mehefin, fod yn feichus.
- Dywedwyd bod y wasg fasnachol wedi rhoi adroddiadau am ostyngiad dramatig yn nifer y tendrau llywodraeth leol o dan y gyfundrefn Gwerth Gorau, a bod yr arbedion a sicrhawyd drwy Dendro Cystadleuol Gorfodol yn sylweddol uwch na'r rheini a sicrhawyd o dan y Gwerth Gorau. Teimlai'r Aelodau ei bod yn rhy gynnar i wneud unrhyw gymariaethau rhwng Tendro Cystadleuol Gorfodol a'r Gwerth Gorau, ond nodwyd ganddynt mai tendro cystadleuol gwirfoddol yw un o'r arfau gorau sydd ar gael i awdurdodau lleol er mwyn gwireddu'r Gwerth Gorau.
- Teimlai rhai Aelodau ei bod yn briodol dehongli'r Gwerth Gorau fel creu swyddi yn y gymuned leol drwy i gynghorau gyflogi'n lleol a phrynu'n lleol. Dywedodd y Gweinidog mai swyddogaeth bennaf llywodraeth leol yn ei barn hi oedd darparu gwasanaethau yn

hytrach na bod yn gyflogwr.

6.3 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar y Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau a hefyd ar y dyddiad cyhoeddi i Gynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau i ystyriaeth. Atgoffodd yr Aelodau y byddai'r Comisiwn Archwilio a Gwasanaeth yr Archwiliwr Dosbarth yn cyflwyno canlyniadau eu harchwiliad o Gynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau i'r Pwyllgor ar 13 Rhagfyr.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd: LGH-11-00 (min)**

1. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd.

7.2 Nododd yr Aelodau y llythyr yr oedd y Cadeirydd wedi'i dderbyn gan y Gweinidog, a oedd wedi cadarnhau y byddai materion cyfiawnder yr ifanc yn parhau'n rhan o bortffolio'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn profi effeithiolrwydd uno'r cyfrifoldebau cyfiawnder yr ifanc gyda'r cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol. Teimlai'r Pwyllgor yn gryf ei bod yn briodol i'r cyfrifoldeb am gyfiawnder yr ifanc aros ochr yn ochr â'r cyfrifoldeb am ddiogelwch yn y gymuned ac yn wir lywodraeth leol yn gyffredinol ym mhortffolio Edwina Hart. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru ar y mater hwn.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tachwedd 2000**

**Atodiad 1**

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU O GYFARFOD 15 TACHWEDD**

1. Ymrwymodd y Gweinidog i ddod â phapur i'r Pwyllgor ar y trefniadau cyllido ar gyfer awdurdodau heddlu (paragraff 3.2).

2. Ymrwymodd y Gweinidog i godi cwestiwn gyda'r awdurdodau heddlu mewn cyfarfod yn y dyfodol pa un y byddai yna fanteision o gael mwy o gysondeb yn y Memoranda Dealltwriaeth sy'n bodoli rhwng pob awdurdod heddlu a'r gwasanaethau prawf, awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd mewn perthynas â throseddwyr rhyw (paragraff 3.3).

3. Addawodd y Gweinidog y byddai'n ymgynghori â grp pob plaid ar y cylch gwaith ar gyfer yr astudiaeth annibynnol o lwfansau cynghorwyr, ac y byddai hefyd yn sicrhau bod yr amserlen ar gyfer yr astudiaeth ar gael i'r Pwyllgor (paragraff 3.5).

4. Cytunodd y Gweinidog a’r Cadeirydd i geisio barn y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ar y posibilrwydd i’r Pwyllgor sefydlu rhaglen o ymweliadau ag awdurdodau lleol (paragraff 3.6).

5. Dywedodd y Gweinidog y byddai’n sicrhau bod gwybodaeth am geisiadau llwyddiannus o dan y Gronfa Adfywio Leol yn cael ei darparu i Aelodau’r Pwyllgor (paragraff 3.7).

6. Cytunodd y Gweinidog i ddod â phapur ymlaen ar gydgyfeirio rhenti tai cymdeithasol, ynghyd â’r dolenni cyswllt â’r Grant Tai Cymdeithasol yn ogystal â’r berthynas â Budd-dâl Tai (paragraff 4.5).

7. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn cefndirol i’r Aelodau ar y cynllun ’Diogelwch Drwy Gynllunio’ (paragraff 4.5).

8. Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys y ddogfen ymgynghorol ar y strategaeth dai genedlaethol yn ei blaen, a chytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn cefndirol ar y pwyntiau technegol a godwyd gan Aelodau (paragraff 4.6).

9. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu dadansoddiad manwl o’r adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol o bob rhan o gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â braslun o’r mecanweithiau dosbarthu ar gyfer grantiau penodol (paragraff 5.2).

10. Ymrwymodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog i nodi barn y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft a’r newidiadau arfaethedig i *gwellcymru.com* (paragraff 5.4).

11. Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar y Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau a hefyd ar y dyddiad cyhoeddi i Gynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau i ystyriaeth (paragraph 6.3).

12. Cytunwyd y dylai’r Cadeirydd ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i’w gwneud yn glir bod y Pwyllgor o’r farn y dylai’r cyfrifoldeb am gyfiawnder yr ifanc aros ochr yn ochr â’r cyfrifoldeb am ddiogelwch yn y gymuned ym mhortffolio Edwina Hart (paragraff 7.2).